

## **Cyngor Cymuned Llanelian (305)**

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 6 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Glenys Jones, David Gerrard, Cyng. Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** Elyn Hughes, John Griffiths, Cyng. Richard Jones,

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

**Yn absennol:** Cyng. Richard Griffiths

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Thomas Jones, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Dim

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Carol Whitaker, eilio Ian Evans

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Priffyrdd**

Nodwyd bod y garafan yn dal i fod ger y tai cyngor ym Mhengorffwysfa. Cytuno cysylltu ag adain tai CSYM yn hytrach na priffyrdd. Mae carafan yn parhau hefyd ger Marie Curry a cherbydau heb eu symud. Cytuno cysylltu eto. CET

Nid oedd ddiweddariad ar newid y cyfyngiad cyflymdra ar y ffordd osgoi. Y clerch i gysylltu eto am ddiweddariad. CET

#### **4.2 Ysbwriel a Gwastraff**

Dim diweddariad

#### **4.3 Blwch Post**

Cafwyd ddiweddariad gan Carol Williams (Swyddfa Bost) yn cadarnhau bod cais wedi ei wneud i symud y blwch presennol. Cytuno cysylltu eto i ddiolch am y diweddariad ac am gymryd camau i symud y blwch. Gobeithir na fyddwn heb flwch postio yn y pentref tra bod y broses yn cymryd ei amser. CET

#### **4.4 Gardd Top Rallt**

Cadarnhawyd bod Richard Edwards wedi bod yn rhoi chwynladdwr a chlririo. Mae gardd Top Rallt wedi ei gynnwys yng nghytundeb cynnal y caeau chwarae. Bydd yr ysgol yn plannu'r bocsus blodau yn y gwanwyn.

#### **4.5 Datblygiad Dublin**

Cadarnhawyd bod copiau o ddogfennau Grwp Cynefin wedi eu dosbarthu wedi'r drafodaeth gyda Noela Jones yn y cyfarfod diwethaf. Cytuno ysgrifennu i ddiolch am y dogfennau a'u bod yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd. Nodwyd nad oedd y dogfennau drafft wedi eu mabwysiadu a gofynnwyd a fyddai posib cadarnhau pan fyddent wedi eu cymeradwyo. Cynnig Ian Evans, eilio Glenys Jones. CET

#### **4.6 Sul y Cofio**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod arbennig wedi eu dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth. Diolchwyd i Carol Whitaker a Gordon Hayes am eu gwaith gyda'r Clwb Ieuenctid i ymchwilio a paratoi arddangosfa anhygoel am hanes y pentref. Cytuno prynu cabinet i gadw'r gwaith ymchwil yn ddiogel ynghyd a hen ddogfennau'r cyngor. (S226) CET

Cadarnhaodd Hefina Williams bod trefniadau yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth ddydd Sul gan gynnwys lluniaeth ysgafn yn y Neuadd yn dilyn ymweld a'r gofeb.

Cafodd pawb oedd yn bresennol eu hatgoffa am y gwasanaeth ar Fynydd Parys 6.30 o'r gloch nos Sul 11/11/2018 i gofio can mlynedd ers diwedd y rhyfel byd cyntaf.

## **5 Adroddiadau Pwyllgorau**

**5.1 Caeau Chwarae**  
Dim diweddariad.

**5.2 Llithrfa**  
Dim diweddariad.

**5.3 Mynwent**  
Dosbarthwyd cofnodion yn dilyn cyfarfod y pwyllgor er gwybodaeth. Diolchwyd i John Griffiths am dorri'r glaswellt a gor dyfiant yng nghefn y fynwent.

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r Henaduriaeth ynglyn ag Mynwent Bosra. Mae trefniadau y neu lle i dorri'r gwrych a gwella'r llwybr. Mae'r Henaduriaeth am i'r Cyngor hysbysebu yn yr Arwydd a fyddai unrhyw un am osod mainc goffa yn y fynwent. Ni does gwrthwynebiad gosod mainc.

**5.4 Cyllid a Pholisi**  
Dim diweddariad.

**5.5 Pwyllgorau Allannol**  
Cafwyd adroddiad gan Ian Evans yn dilyn cyfarfod Un Llais Cymru. Nododd y byddai yn fodlon mynychu'r cyfarfodydd yn reolaidd petai'r Cyngor am iddo wneud hynnu. Roedd yr aelodau yn unfrydol yn derbyn ei gynnig, y clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i ddiweddarau manylion. CET

Cadarnhaodd Glenys Jones ar ran llywodraethwyr yr ysgol bod swydd y pennaeth wedi ei hysbysebu erbyn hyn. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

## **6 Cynllunio**

**6.1 Ceisiadau** – Roedd un cais i'w ystyried sef Ty Moel Isaf, Llaneilian (24C43D/VAR). Nid oedd gan yr aelodau sylw ar y cais.

**6.2 Penderfyniadau** – Cafwyd wybod bod CSYM wedi cymeradwo cais Carrog, Llaneilian.

## **7 Materion Ariannol**

**7.1 Taliadau**  
Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£628.99 Currys / PC World – Gliniadur (50%i'w ad-dalu gan Gyngor Llanbadrig)  
£333.06 HMRC PAYE  
£25.00 RBL Poppy Appeal  
£285.87 Carli Evans Thau – Cyflog  
£180.00 Cyngor Gwynedd – Archwiliad

Nodwyd bod angen archebu meddalwedd 'Office' ar gyfer y gliniadur ac y byddai'r gost yma hefyd yn cael ei rannu gyda Cyngor Llanbadrig (tua £60). Nid fu gwrthwynebiad. CET

**7.2 Adroddiad Chwarterol**  
Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad yn amlinellu incwm a gwariant y cyngor i'r rheini oedd yn bresennol er gwybodaeth. Nodwyd mai taliad ar gyfer 2017/18 oedd y grant cynnal llwybrau. Nododd Dafydd Griffiths efallai byddai posib hawlio mwy o arian tuag at y gost blyneddol. Cytuno gwneud ymholiadau pellach. DG

Ni fu cwestiynnau pellach am gynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r clerc am ei baratoi.

### **7.3 Ceisiadau am Arian**

Cafwyd cais gan Eisteddfod Mon am gyfraniad cyffredinol. Cytuno mai dim ond grwpiau a gweithgareddau o fewn dalgylch y cyngor sydd yn cael cefnogaeth fel rheol.

### **8 Cronfa Tŷ Moel Isaf**

Daw gwybodaeth gan cyfreithwyr y diweddar Mrs Mair Morris yn cadarnhau bod taliad o £94k i'w wneud yn fuan. Cytuno i'r clerc arwyddo'r dogfennau perthnasol a'u hanfon yn ol i'r cyfreithiwr. Bydd angen cyfarfod arbennig i drafod ymhellach.

CET

### **9 Iechyd a Diogelwch**

Dim materion i'w cofnodi.

### **10 Wylfa Newydd**

Cafwyd ddiweddariad gan Dafydd Griffiths. Nid yw Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi cwrdd yn y mis diwethaf. Mae'r arolygaeth gynllunio fodd bynnag wedi dechrau ar y broses o astudio ac ystyried y cais yn fanwl ac wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd cychwynnol ym Mona. Mae'r cyfarfodydd yma wedi amlinellu a chadarnhau'r amserlen ar gyfer y broses. Mae disgwyl i'r Partneriaeth gwrdd yn fuan er mwyn symud ymlaen gyda'r datganiad tir cyffredin. Diolchwyd i Dafydd Griffiths am ei adroddiad.

### **11 Gohebiaeth**

#### **11.1 Adolygiad Darpariaeth Addysg Ardal Amlwch**

Cafwyd wybod bod CSYM yn adolygu darpariaeth addysg mewn 7 ysgol yn dalgylch Amlwch, gan gynnwys Ysgol Penysarn. Bwriedir cynnal sesiynnau ymgysylltu ym mhob ysgol yn ei dwrn (Penysarn 19/11/2018).

Teimlai'r aelodau bod cyfnod o bedair wythnos i drin a thrafod y fath bwnc yn annigonol, ac fe gwestiynnwyd pam nad oedd cyfarfodydd cyhoeddus fel sydd wedi eu cynnal mewn ardaloedd eraill. Pwysleiswyd mai proses ymgysylltu anffurfiol oedd hwn ac y disgwylir ymgynghoriad ffurfiol yn y gwanwyn.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau polisi newydd i ddiogelu ysgolion gweldig yn yr wythnosau diwethaf.

Nodwyd byddai o bosib angen i aelodau gyflwyno cais am ganiatad arbennig gan y Pwyllgor Safonau er mwyn gallu cymryd rhan yn y trafodaethau ynglyn a dyfodol ysgolion pan fu'r ymgynghoriad ffurfiol. Bydd hyn yn wir i nifer o aelodau ym mhob cyngor yn y dalgylch.

Gyda'r gwybodaeth oedd wedi ei gyflwyno hyd yma, roedd yr aelodau yn unfrydol yn erbyn cau Ysgol Penysarn wrth gydnabod bod hefyd angen addysg uwchradd yn y cylch. Nodwyd bod llywodraethwyr yr ysgol yn cwrdd Nos Wener a bod adolygiad CSYM wedi ei gynnwys ar yr agenda.

Nododd Aled Jones bod Cyngor Rhosybol wedi galw cyfarfod brys i gynghorau Cymuned a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw i drafod y ffordd ymlaen. Mae croeso i'r holl aelodau 12/11/2018 am 7.30 yn Ysgol Rhosybol.

Cytuno dosbarthu poster i a hyrwyddo sesiwn gwybodaeth yn yr ysgol 19/11/18. Nodwyd byddai'r clwb ieuencid yn gallu dosbarthu yn y pentref.

CET  
CW  
GH

#### **11.2 Grid Cenedlaethol**

Cafwyd ddiweddariad cyffredinol yng nghylchlythyr diweddaraf y Grid. Roedd yr aelodau yn unfrydol yn erbyn gosod mwy o beilonau ar hyd yr ynys ac am weld y ceblau yn cael eu gosod tan ddaear. Cytuno byddai Dafydd Griffiths yn cofrestru gyda'r arolygaeth er mwyn lleisio barn y cyngor.

DG

### **11.3 Hyfforddiant Un Llais Cymru**

Nododd y clerc bod sesiwn hyfforddi i'w gynnal yn Llangefni 20/11 ar reoli gwybodaeth. CET  
Dim gwrthwynebiad i'r clerc fynychu.

### **12 Cod Ymddygiad**

Cadarnhaodd yr aelodau eu bod wedi derbyn copi o'r cod ymddygiad, eu bod wedi darllen y ddogfen ac yn gyfforddus a'i gynnwys. Nodwyd bod angen diweddarau un cymal ynglyn a rhoddion. Bydd angen diweddarau hwn tra'n adolygu'r rheolau ariannol.

### **13 Adroddiad Panel Adolygu Annibynnol**

Cadarnhaodd yr aelodau eu bod wedi derbyn yr adroddiad cyn y cyfarfod. Argymhellion yn unig sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen, bydd newidiadau mawr i'r ffordd mae cynghorau cymuned yn gweithredu petai'r argymhellion i gyd yn cael eu mabwysiadu. Nodwyd bod y cyngor eisioes yn cydweithio gyda chynghorau eraill yn yr ardal er budd y gymuned ehangach h.y. ardal Twrcelyn ac ardal Gogledd Mon.

### **14 Unrhyw Fater Arall**

**14.1** Cydymdeimlo – cytuno anfon llythyr at Mrs Gladys Hughes yn dilyn profedigaeth ei gwr CET  
yn ddiweddar. Bu yn aelod blaenllaw o gymuned Penysarn tra yn byw yn yr ardal.

**14.2** Gamdda – nodwyd bod y gamdda ger Porth Gwichiad angen sylw cyn gynted a phosib. CET

**14.3** Twll – nodwyd bod twll yn y lon ger y fynedfa i Stad Penysarn Fawr. Y clerc i gysylltu a'r CET  
swyddogion perthnasol.

### **15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Rhagfyr 4, 2018 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.15

**Arwyddwyd  
Thomas Jones  
Is-Gadeirydd**

CET11/2018